

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd
a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015

Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1.Crynodeb

- 1.1. Dechreuodd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol newydd ei swydd yn ystod 2014-15 a bu newidiadau o ran penodiadau eraill i swyddi uwch eleni ac yn 2015-16. Mae hyn, a'r heriau o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Deddf GCLI) yn cynnig cyfle cynyddol i'r cyngor foderneiddio gwasanaethau. Mae'r cyfarwyddwr yn gwbl ymwybodol o'r angen i gymryd rhan lawn mewn dadl gyhoeddus a gwleidyddol ar lefel y gwasanaethau uniongyrchol a ddarperir i bobl yn yr awdurdod. Mae lefelau gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, plant sy'n derbyn gofal a chofrestriadau amddiffyn plant yn uchel. Ceir her sylweddol i'r cyngor o ran gostwng y ffigurau hyn yn ddiogel trwy hybu annibyniaeth ac opsiynau llety eraill i oedolion a chynyddu effaith gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i leihau'r angen am ymyriadau gorfodol ymhlith teuluoedd.
- 1.2. Ceir gorchymyn llywodraethol eglur i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd integreiddio gwasanaethau lle'n bosibl. Ceir lle i wella yma i asiantaethau wella llinellau cyfathrebu gweithredol, i gytuno ar drothwyon ac asesiadau a rennir ac i gynyddu cyflymder newidiadau. Rydym wedi nodi rhai pryderon o ran gweithrediad trefniadau diogelu oedolion yn ystod y flwyddyn a byddwn yn gwneud gwaith dilynol gyda'r cyngor o ran y cynnydd y mae wedi ei wneud yn y maes hwn. Yn gyffredinol, rydym yn falch o nodi bwriad y cyfarwyddwr i gyflwyno systemau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad mwy cadarn, fel y gall y cyngor sicrhau ei hun yn well bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn effeithlon ac i sicrhau cymaint â phosibl o ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod o gyni cyllidol. Nodwyd gwelliannau yn y gwasanaethau i blant yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi argymhell monitro'n barhaus y polisi o ddefnyddio staff nad ydynt yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig i reoli achosion plant sy'n derbyn gofal, gan nad yw hwn yn bolisi a ddilynir gan gynghorau eraill yng Nghymru.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-15
Parhau i fwrw ymlaen ag integreiddio gwasanaethau gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd a chynghorau eraill	Gwnaed rhywfaint o gynnydd. Mae'r cyfarwyddwr yn dymuno cyflymu'r integreiddio.
Sicrhau bod niferoedd digonol o weithwyr cymwysedig profiadol mewn timau a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol	Nid yw'r cyngor yn bwriadu cynyddu ei gyfran o weithwyr cymdeithasol cymwysedig ymhellach.
Parhau i adolygu sianeli cyfathrebu a phroblemau gweithlu	Ymgynghoriad â staff ar ailfodelu'r gwasanaethau i blant.
Cynnydd o ran cynlluniau i sicrhau mwy o gyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn hyfforddiant	Gwnaed rhywfaint o gynnydd; mae gofalmwyr ifanc wedi creu deunyddiau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol.
Gwella systemau ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau a rheoli gofal	Fe'n hysbysir bod hwn yn faes o flaenoriaeth a gwnaed rhywfaint o gynnydd eleni.
Sicrhau bod cynlluniau gofal oedolion yn cael eu hadolygu'n unol ag amserlenni statudol	Gostyngiad pellach i berfformiad eleni.
Adolygu gweithdrefnau rhyngasiantaeth ym maes diogelu oedolion	Mae hyn yn parhau i fod yn broblem ac fe'i hatgyfeiriwyd gan y cyngor i'r bwrdd diogelu oedolion (CTASB)
Ceisio cynyddu capasiti nyrsio henoed bregus eu meddwl trwy gomisiynu	Strategaeth cyd-gomisiynu ar fin cael ei gyhoeddi.
Adolygu effaith gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar ymyriadau statudol gyda phlant a theuluoedd	Parhaus. Gostyngiadau i blant sy'n derbyn gofal a chofrestriadau amddiffyn plant.
Cynyddu asesiadau o ofalmwyr sy'n oedolion	Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r cyfarwyddwr.
Datblygu dull seiliedig ar ganlyniadau ymhellach yn y gwasanaethau i oedolion	Gweithio tuag at bwyslais cynyddol ar fonitro perfformiad.
Cynyddu cyd-gomisiynu gwasanaethau atal ac ymyrraeth	Rhywfaint o gynnydd a gwaith yn parhau.

gynnar i oedolion a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt	
Cynyddu pwyslais y gwasanaethau i blant ar wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol	Bwriedir i'r model gweithredu diwygiedig i gynyddu mynediad at gymorth cynnar.
Gwella sicrwydd ansawdd lleoliadau a drefnir drwy'r 4C a chynyddi ei swyddogaeth o ran comisiynu	Rhywfaint o gynnydd, cwblhau'r gwaith sy'n parhau yn 2015-16.

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn cynnig cyfle i AGGCC sgwrsio â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014/15, gwnaed ymweliadau safle â:
 - Diogelu oedolion
 - Cymorth i ofalwyr
- 3.2. Cafodd AGGCC gyfarfodydd ag uwch swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn hefyd i adolygu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus a thrafod cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad y llynedd o berfformiad. Roedd y cyngor yn gynorthwyol o ran ei ymgysylltiad ag AGGCC gan hwyluso mynediad yn barod i ganiatáu i ymweliadau â safleoedd gael eu cynnal.
- 3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiadau thematig cenedlaethol o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru, gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cynhaliwyd arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol hefyd. Roedd hyn yn cynnwys arolygiadau o'r gwasanaethau cartrefi plant, maethu, gofal cartref a chartrefi gofal i oedolion. Mae manylion y rhain ar gael mewn adroddiadau a gyhoeddwyd ac ar gael ar wefan AGGCC.
- 3.4. Cymerodd AGGCC ran yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru: Annibyniaeth pobl hŷn y bydd adrodd arno yn ystod 2015-16.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r

cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd meysydd penodol ar gyfer gwaith dilynol yn cynnwys:

- Diogelu oedolion
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Rhianta Corfforaethol
- Gwasanaeth 16 oed a hŷn
- Cyfarfod gyda chadeiryddion craffu

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-16

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Mae'r cyngor wedi cefnogi llai o bobl hŷn mewn cartrefi gofal eleni ac wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 6% sy'n parhau tueddiad am i lawr yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod y gyfran uchaf o'i bobl hŷn mewn cartrefi gofal nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Mae'r cyngor wedi gweld mwy o effaith gan ei wasanaethau ail-alluogi ac wedi cyflwyno mwy o fecanweithiau craffu er mwyn sicrhau y darperir cymorth amgen i fwy o bobl. Mae'r cyngor yn parhau i gynnal nifer uchel o'i gartrefi gofal ei hun. Mae'r cyfarwyddwr yn ystyried a yw'r 12 o gartrefi hyn yn darparu'r math o lety sydd ei angen fwyaf ar bobl hŷn ag anghenion cymhleth iawn ac a ellid cynorthwyo mwy o bobl tuag at lefel uwch o annibyniaeth. Mae'r cyfarwyddwr yn ymwybodol o'r egwyddorion sy'n sail i DGCLIC sydd ar fin cael ei roi ar waith ac o gyfyngiadau ariannol.
- 6.2. Ni fyddai'n briodol i nifer gwelyau preswyl y cyngor ei hun ddylanwadu ar faint ei boblogaeth breswyl, gan y dylai hyn fod yn seiliedig ar angen

unigol yn amlwg. Efallai y gellid sicrhau mwy o eglurder trwy adolygu trothwyon ar gyfer gofal preswyl yn yr awdurdod. Y ford orau o gyflawni hyn fyddai mewn cydweithrediad â'r bwrdd iechyd, i well cysondeb asesiadau ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty ac a allai arwain at lai o bobl yn mynd i ofal preswyl ar y pwynt hwn. Mae'r cyngor yn gweithio gyda darparwr annibynnol i sefydlu cyfleuster Gofal Ychwanegol a disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau yn 2016. Mae hon yn fenter arwyddocaol y gellid ei hailadrodd os ystyrir ei bod yn llwyddiannus ac mae'n debygol o gael ei hystyried yn rhan o Gynlluniau Gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol.

- 6.3. Mae'r awdurdod yn parhau i hyrwyddo'r 'Prosiect Pili-pala' yn ei gartrefi ei hun ac yn cefnogi ei ddatblygiad yn y sector annibynnol. Nod y fenter hon yw datblygu arfer gorau o ran gofal i bobl â dementia. Arolygwyd holl gartrefi'r cyngor gennym yn 2014-15 a nodwyd rhai meysydd cyffredin lle nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau a chawsom gyfarfodydd ag uwch reolwyr i drafod hyn. Nid oedd y cyngor yn sicrhau bod staff yn eu cartrefi yn derbyn goruchwyliaeth yn ddigon aml, sy'n bwysig i fonitro cymhwysedd ac anghenion dysgu. Roedd problemau yn rhai o'r cartrefi o ran diwygio cynlluniau gofal ar gyfer preswylwyr a phrosesau cyn-derbyn. Nodwyd gennym hefyd y dylai'r cyngor wella ei brosesau sicrhau ansawdd ei hun fel y gall uwch reolwyr sicrhau y rhoddir sylw i broblemau'n brydlon.
- 6.4. Fodd bynnag, roedd y pryder fwy yn 2014-15 yn ymwneud ag ansawdd gofal mewn rhai cartrefi preswyl yn y sector annibynnol. Ar ôl ymdrechion sylweddol i gefnogi gwelliant un cartref gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, fe'i gorfodwyd iddo gau gennym ni (AGGCC) oherwydd y methiant parhaus i ofalu am breswylwyr yn ddiogel. Roedd cydweithio da iawn rhwng yr asiantaethau statudol i adleoli'r preswylwyr. Roedd methiannau gofal a nodwyd mewn sawl cartref gofal arall a gweithiodd y prosesau gweithrediadau amlasiantaeth awdurdod lleol yn yr awdurdod yn dda i nodi a rhannu gwybodaeth. Trosglwyddwyd cadeiryddiaeth y cyfarfodydd hyn i gomisiynu yn ystod y flwyddyn, a amlygodd swyddogaeth ganolog comisiynu a monitro contractau i'r broses perfformiad darparwyr. Roedd gwelliannau wedi eu cyflawni ym mwyafrif y cartrefi erbyn diwedd 2014-15 ac rydym yn parhau i weithio ar y cyd â'r cyngor a rhannu gwybodaeth o arolygiadau.
- 6.5. Dioddefodd nifer sylweddol fwy o bobl o Rionda Cynon Taf oediadau cyn gadael yr ysbyty yn 2014-15 oherwydd diffyg cymorth gofal cymdeithasol. Mae cyfradd y bobl a gafodd eu hoedi yn yr awdurdod ddwywaith yn fwy na chyfartaledd Cymru a ddwywaith yn fwy na'i berfformiad ei hun y flwyddyn cynt. Dyma'r 3^{ydd} gwaethaf yng Nghymru erbyn hyn. Rydym wedi trafod hyn gyda'r cyfarwyddwr sy'n esbonio nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol a maes iechyd yn rhannu trothwy

cyffredin ar gyfer rhyddhau neu'r angen am ofal preswyl wrth ryddhau. Yn 2014-15 yn benodol, caewyd ysbyty ac roedd cyfradd salwch uchel ymhlith staff mewn timau oedolion lleol. Bydd y cyngor eisiau bodloni ei hun bod llai o bobl yn cael eu hoedi cyn gadael yr ysbyty yn 2015-16. Fe'n hysbysir bod gwelliannau'n cael eu nodi pan leolir staff gwasanaethau cymdeithasol mewn ysbytai ac y caiff cyfarfodydd rheolaidd eu trefnu gyda maes iechyd. Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol geisio ymgysylltu â'r bwrdd iechyd o ran sefydlu trothwy cyffredin ar gyfer gofal preswyl.

- 6.6. Er y bu dirywiad graddol dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau i gyfran fwy o bobl hŷn na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru (dyma'r 4^{ydd} awdurdod uchaf). Gellir ystyried bod hyn yn gadarnhaol o'r safbwynt bod y cyngor yn darparu lefel uchel o gymorth i bobl hŷn. Fodd bynnag, nod y cyngor yw darparu mwy o wasanaethau byrdymor i hybu annibyniaeth lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac felly lleihau'r angen am wasanaethau parhaus.
- 6.7. O ran oedolion sy'n iau na 65 oed y mae'r cyngor yn darparu gwasanaeth iddynt, cynorthwyr cyfran uwch o'r bobl hyn yn y gymuned na chyfartaledd Cymru, sy'n gydradd ail. Mae hwn yn ffigur cadarnhaol, er bod y cyngor yn cydnabod bod ei wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ar fin cael eu hadolygu. Bydd y cyngor yn dymuno bodloni ei hun bod pobl yn cael cynnig y gwasanaethau mwyaf priodol i gefnogi angen a hybu'r lefel fwyaf o annibyniaeth.
- 6.8. Mae'r cyngor yn rhedeg pedwar o'i wasanaethau gofal cartref ei hun sy'n darparu cymorth parhaus neu ail-alluogi mwy byrdymor i oedolion yn eu cartrefi. Arolygwyd yr holl wasanaethau gennym yn ystod y flwyddyn ac ystyriwyd eu bod yn darparu gofal o ansawdd uchel i bobl. Mae'r prosiect cof ail-alluogi yn cynorthwyo teuluoedd a gofalmwr sy'n gofalu am bobl â dementia/problemau cof ac yn enghraifft o arfer da.
- 6.9. Mae'n peri pryder bod perfformiad yr awdurdod o ran darparu adolygiadau prydlon o anghenion gofal pobl wedi gwaethygu mewn blwyddyn arall. Bu tueddiad am i lawr o 81% yn 2011-12 i 73% yn 2014-15. Dylai hwn fod yn fater o flaenoriaeth i'r cyngor ac mae yng nghydestun nifer ostyngol o bobl i'w hadolygu. Fe'n hysbysir bod y cyngor wedi cynyddu capasiti ar ddechrau 2015-16 i wella ei berfformiad. Mae adolygiadau'n bwysig i sicrhau bod anghenion pobl yn parhau i gael eu diwallu, bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol a bod yr holl ffyrdd o gefnogi annibyniaeth gynyddol ar waith.
- 6.10. Roedd trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn destun arolygiad cenedlaethol gan AGGCC ac AGIC ar ddechrau 2014. Canfuwyd fod ceisiadau'n briodol yn gyffredinol. Roedd rhai oediadau o ran nodi

aseswyr buddiant gorau, yr oedd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn ceisio eu gwella. Gwnaed rhai argymhellion o ran strwythur a llywodraethu. Cydnabuwyd bod partneriaid wedi cydnabod yr un materion cyn yr arolygiad. Ynghyd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, bu cynnydd sylweddol i geisiadau yn 2014-15 o ganlyniad i ddyfarniad Cheshire West. Yn Rhondda Cynon Taf, cynyddodd ceisiadau o 58 yn 2013-14 i 834 yn 2014-15. Mae'r awdurdod wedi cynyddu ei gapasiti o aseswyr buddiant gorau ac wedi cwblhau 251 asesiad yn 2014-15, gyda'r bwriad o gynyddu capasiti ymhellach yn 2015-16 a sicrhau y defnyddir adnoddau yn deg ar draws yr awdurdodau. Defnyddir dull blaenoriaethu i reoli rhestr aros a sicrhau y cwblheir asesiadau lle mae'r angen mwyaf.

- 6.11. Cwblhawyd gwaith safle gennym yn 2015 yn ystyried cymorth i ofalwyr. Gwelsom fod yr awdurdod wedi buddsoddi mewn swyddogion cymorth gofalwyr penodol wedi'u lleoli mewn un safle. Argymhellwyd adolygiad o drefniadau gweithio a rheoli gennym er mwyn sicrhau bod cymaint o gapasiti ac effeithlonrwydd â phosibl. Mae'r awdurdod lleol wedi creu swydd benodol i gynorthwyo gofalwyr sy'n oedolion ifanc, maes angen a gydnabuwyd. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ac ar-lein o ansawdd da ar gael ac yn hygyrch. Nod yr awdurdod yw darparu cymorth emosiynol a chymdeithasol da ac mae'n comisiynu cwnsela unigol i ofalwyr yn ôl y gofyn ac yn darparu amrywiaeth o sesiynau hamdden a gwybodaeth. Mae'r awdurdod wedi creu hyrwyddwyr ym maes gofal sylfaenol ac ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth broffesiynol. Roeddem o'r farn gyffredinol bod y cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo gofalwyr ac i ddarparu gwasanaethau cymorth o ansawdd da.
- 6.12. Mae dangosyddion perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos bod 50% o ofalwyr a nodwyd wedi cael asesiad o'u hanghenion; mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, rydym yn sylwi fod nifer y gofalwyr a nodwyd yn yr awdurdod wedi gostwng yn ystod y pedair blynedd diwethaf, sy'n annhebygol o'r hyn y gwyddom am dueddiadau cenedlaethol. Mae'r cyfarwyddwr yn dymuno gwella'r ymateb i ofalwyr ac mae'n ymwybodol o broblem gofnodi gyffredin sy'n effeithio ar ddibynadwyedd data. Cawsom sgysiau â sawl gofalwr yn ystod ein gwaith safle a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon gyda'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn.
- 6.13. Mae'r cyngor wedi mabwysiadu model cryf o weithio ar y cyd trwy ddatblygu canolfan ddiogelu amlasiantaeth gyda Merthyr Tudful, yr Heddlu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r ganolfan yn cwblhau camau cynnar trefniadau diogelu o ran oedolion a phlant a daeth yn weithredol ar gyfer atgyfeiriadau oedolion ym mis Ionawr 2015. Gobeithir y bydd cael partneriaid allweddol gyda'i gilydd ar un safle yn cynyddu'r wybodaeth a rennir ac arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae staff gwaith cymdeithasol o'r ddau gyngor yn gweithredu

ar wahân o fewn y ganolfan ddiogelu amlasiantaeth a bydd yn bwysig bod mwy o integreiddio'n cael ei sicrhau dros amser os yw effaith lawn y fenter hon am gael ei gwireddu.

- 6.14. Nododd y cyfarwyddwr diogelu oedolion fel maes blaenoriaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r dangosydd perfformiad ar gyfer rheoli risg mewn atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn dda, wedi cynyddu am flwyddyn arall ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Cwblhawyd gwaith safle gennym yn 2015 yn ymwneud â'r trefniadau diogelu oedolion. O ganlyniad, gwnaethpwyd sawl argymhelliad gennym i'r cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y rhesymau am benderfyniadau'n cael eu cofnodi'n eglur a mwy o ddefnydd o fecanweithiau sicrhau ansawdd a monitro i sicrhau llywodraethu cadarn. Nodwyd problemau capasiti neu drefniadaeth yn y tîm diogelu ac yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion o ran eu gallu i gyflawni swyddogaethau rheolwr arweiniol neilltuedig. Codwyd pryderon gennym hefyd am agweddau ar drefniadau amlasiantaeth ac atgyfeiriwyd y rhain at Fwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf.
- 6.15. Cynhyrchodd y cyngor gynllun gwella ac rydym yn cydnabod bod uwch reolwyr yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddwn yn parhau i drafod ac ystyried a oes cyfiawnhad dros arolygiad yn 2015-16. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cydnabod nad yw camau cryfhau a gynlluniwyd i brosesau sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion yn eu cyfanrwydd wedi digwydd eleni. Mae'n ymddangos felly y gallai hon fod yn broblem fwy cyffredinol a byddem yn cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2015-16.
- 6.16. Bu cynnydd o 37% i nifer y cwynion am wasanaethau i oedolion yn 2014-15 o'i chymharu â'r flwyddyn cynt. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn nodi u bu nifer anarferol o isel o fwynion yn ystod 2013-14 a bod y cynnydd yn golygu bod y ffigurau'n debyg i flynyddoedd blaenorol. Mae'n gadarnhaol nodi na aeth yr un o'r cwynion hyn yn ei flaen i gam dau, sy'n awgrymu bod problemau wedi cael eu datrys heb uwchgyfeirio pellach. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, derbyniwyd y nifer uchaf o gwynion i dimau asesu a rheoli gofal lleol. Bu cynnydd i gwynion a dderbyniwyd am iechyd meddwl ac oedolion ag anabledd dysgu, yr olaf oherwydd ymdrechion rhagweithiol gan yr uned gwynion i wneud pobl yn ymwybodol o'u hawliau i godi cwynion. Bu gwelliant o ran ymatebion prydlon i gwynion, er y nodir bod angen rhagor o gynnydd, y mae'r cyngor wedi ei nodi fel blaenoriaeth.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.17. Nododd y cyfarwyddwr ddatblygiad gwasanaethau ataliol pellach fel blaenoriaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r cynlluniau a'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn ar draws Cwm Taf yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Mapiwyd anghenion yn ystod 2014-15 ac mae'r cyngor, mewn cydweithrediad â Merthyr Tudful, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector yn cynnig model tair haen gyda mwy o bwyslais ar swyddogaeth gwasanaethau cyffredinol lleol i gynorthwyo pobl a gwella lles. Hefyd, mae gwasanaethau ail-alluogi yn darparu ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau'r angen am wasanaethau arbenigol. Er mai bwriad hyn yw paratoi'r awdurdod ar gyfer Deddf GCLIC, yr her eglur yw paratoi'r cyhoedd ar gyfer y newidiadau a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon. Bydd y cyngor yn ystyried y cymorth y gall ei roi i grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i ddarparu adnoddau cyffredinol ac wedi'u targedu digonol yn wyneb cyni cyllidol. Rhondda Cynon Taf sydd â'r 3^{edd} lefel uchaf o amddifadedd yng Nghymru, fel y'i mesurir gan y mynegai amddifadedd lluosog. Mae'r cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i wella argaeledd a mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth.
- 6.18. Roeddem yn bresennol yn un o gyfarfodydd y grŵp gweithredu ar gyfer pobl hŷn sy'n cynrychioli'r fforymau 50 a hŷn lleol yn Rhondda Cynon Taf. Gwnaeth lefel gweithgarwch y grŵp hwn gryn argraff arnom ac mae hwn yn bwynt cyswllt cryf i'r cyngor gyda phobl hŷn. Cymerasom ran hefyd yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o annibyniaeth pobl hŷn a fydd yn adrodd yn ystod 2015-16. Roedd yn amlwg bod amrywiaeth o grwpiau ac unigolion gweithgar yn yr awdurdod sy'n gallu cynnig cyfoeth o gyngor a gwybodaeth i hyrwyddo'r newid diwylliant a ddaw yn sgil Deddf GCLIC yn y ffordd orau.
- 6.19. Nid oedd angen gofal mwy hirdymor mwyach ar dri chwarter (75%) y bobl y darparwyd gwasanaethau ail-alluogi iddynt yn 2014-15. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â ffigur cyfartalog o 71% ledled Cymru, a nodwyd yn adroddiad yr asiantaeth gwella'r gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r cyngor wedi derbyn adborth cadarnhaol i awgrymu bod ail-alluogi yn wasanaeth a werthfawrogir ac mae'r rhai sy'n ei ddefnyddio o'r farn ei fod yn effeithiol. Mae'r cyngor hefyd yn bwriadu defnyddio'r gwasanaeth ail-alluogi i adolygu oedolion sy'n derbyn cymorth mwy hirdymor, i weld a ellid eu cynorthwyo tuag at fwy o annibyniaeth a gallai hon fod yn strategaeth arloesol.
- 6.20. Mae gwasanaethau ail-alluogi wedi cynnig cymorth i nifer sylweddol fwy o bobl na'r llynedd ac mae'r cyngor wedi sefydlu un pwynt mynediad

gyda'r bwriad o symleiddio prosesau atgyfeirio. Mae'r ddarpariaeth o gymhorthion, offer a theleofal yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer hybu mwy o annibyniaeth i bobl yn y gymuned. Mae nifer y bobl sy'n aros am asesiadau i dderbyn y rhain wedi gostwng 61% yn ystod y flwyddyn, sy'n ddatblygiad cadarnhaol. Trefnodd tri ar ddeg y cant o'r rhai a oedd yn gymwys eu gofal eu hunain trwy daliad uniongyrchol yn ystod pedwerydd chwarter 2014-15.

- 6.21. Mae Rhondda Cynon Taf ar Fwrdd Partneriaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a ffurfiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r bartneriaeth hon wedi cefnogi amrywiaeth o waith lles a amlinellwyd yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo Cymunedau yn Gyntaf ac asiantaethau eraill i ddarparu mewnbwn yn mynd i'r afael ag unigrwydd, cyngor ar ddyled, dewisiadau yn hytrach na defnyddio gwrthiselyddion ac ati. Mae'r bwrdd wedi nodi amrywiaeth o flaenoriaethau, gan gynnwys mwy o ymgysylltiad â dinasyddion er mwyn sicrhau cyfranogiad cymunedol yn well i sicrhau canlyniadau lefel uchel a lleol.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth

- 6.22. Mae'r cyngor yn bartner gyda Merthyr Tudful a'r bwrdd iechyd i gynhyrchu cyd-ddatganiad o fwriad (Mawrth 2014) o ran pobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae'r pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, fel y byddech yn disgwyl. Mae ffrydiau gwaith presennol wedi'u hamlinellu ac yn cynnwys yr henoed eiddil, model adsefydlu a chynllun i ddatblygu'r fenter '@home' ymhellach, sydd â'r nod o alluogi rhyddhad prydlon o'r ysbyty trwy ddarparu gwasanaeth ail-alluogi. Bydd hyn yn golygu mwy o swyddogaeth i iechyd yn y gymuned ac angen pellach i wella gweithio cyson a chydgyssylltiedig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a maes iechyd yn weithredol.
- 6.23. Gwellid gwneud rhagor o gynnydd yn strategol hefyd. Ceir cydnabyddiaeth yn y gwasanaethau cymdeithasol bod cyflymder newid yn annigonol. Dylid nodi rhagor o gyfleoedd i gynyddu gweithio ar y cyd er mwyn symleiddio mynediad i bobl ac i fodloni amcanion penodol fel lleihau gofal heb ei drefnu ac ati. Mae'r cyfarwyddwr yn cydnabod bod materion o gyfathrebiad a barn broffesiynol sydd wedi effeithio ar gydweithio effeithiol a chynnydd cyflymach. Byddem yn cytuno bod hwn yn faes pwysig i roi sylw iddo a cheisio ei ddatrys ar y lefelau uchaf yn yr asiantaethau.

Meysydd o gynnydd

- Gostyngiad i nifer y bobl hŷn mewn gofal preswyl.

- Cyd-gynhyrchu cyfleuster gofal ychwanegol (2016).
- Proses perfformiad darparwyr gref.
- Gwasanaethau gofal cartref/ ail-alluogi mewnol da.
- Cymorth da i ofalwyr a nodwyd.
- Datblygiad y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth.

Meysydd i'w gwella

- Adolygu trothwyon ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn mewn cydweithrediad â maes iechyd.
- Systemau monitro a sicrhau ansawdd gwell ar draws cartrefi preswyl awdurdodau lleol.
- Lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Cynyddu adolygiadau o gynlluniau gofal pobl.
- Integreiddio staff y cyngor mwy yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth.
- Sicrhau ansawdd a monitro diogelu oedolion.
- Cyflymu newid i sicrhau gwasanaethau integredig â maes iechyd.

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.24. Roedd proses o ailstrwythuro'r gwasanaethau i blant yn cael ei datblygu yn 2014-15 a dechreuwyd ei rhoi ar waith gam wrth gam ym mis Ebrill 2015 yn dilyn ymgynghoriad eang. Mae gan y cyngor weledigaeth eglur i gynyddu'r defnydd o wasanaethau cyffredinol a lefelau is o ymyrraeth. Amlinellir model â phum lefel o ymyrraeth gynyddol a cheir cydnabyddiaeth bod angen diffinio mwy ar drothwyon. Cydnabyddir yr angen i reolwyr wneud mwy o ddefnydd o systemau sicrhau ansawdd cadarn hefyd. Mae'r model gweithredu diwygiedig wedi'i gynllunio i ymateb i flaenoriaethau gwella'r cyngor ar gyfer gwasanaethau i blant a pharatoi ar gyfer gweithrediad Deddf GCLIC.
- 6.25. Mae cyfarwyddwr y gwasanaeth yn eglur mai nad gwneud arbedion cyllidebol yw diben hyn. Yn yr un modd, nid oes unrhyw ychwanegiad at

y gyllideb yn cael ei wneud, er bod swyddi dros dro wedi'u sicrhau o fewn y strwythur parhaol erbyn hyn. Symleiddiwyd rhywfaint ar y strwythur uwch reoli a gostyngwyd nifer y timau derbyn ac asesu. Daeth y ganolfan ddiogelu amlasiantaeth (a amlinellir uchod) yn weithredol ar gyfer diogelu plant ym mis Ebrill 2015. Er ei bod yn rhy gynnar i werthuso, bwriedir iddi ddarparu ymateb prydlon, amlasiantaeth i atgyfeiriadau'n ymwneud â diogelu plant.

- 6.26. Bu gwelliant sylweddol o ran prydlondeb asesiadau cychwynnol yn 2014-15; fodd bynnag, ceir lle sylweddol i wella o hyd. Cwblhawyd chwe deg y cant o asesiadau yn Rhondda Cynon Taf yn unol ag amserlenni; 76% yw cyfartaledd Cymru.
- 6.27. Gwnaed gwelliannau sylweddol hefyd o ran cwblhau asesiadau craidd yn brydlon; mae hyn yn arbennig o gadarnhaol gan y bu cynnydd sylweddol i nifer yr asesiadau craidd a gwblhawyd eleni. Cwblheir wyth deg chwech y cant o asesiadau yn Rhondda Cynon Taf yn unol â'r amserlen, sy'n well na'r cyfartaledd o 81% yng Nghymru gyfan. Er na chydymffurfir ag amserlenni ar gyfer asesiadau cychwynnol a chraidd, gall oediadau fod yn hir a byddai'r maes hwn yn elwa o sylw penodol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran asesiadau plant a theuluoedd ar y cyfan. Mae'n priodoli hyn i fwy o bwyslais yng nghyfnodau diweddarach y flwyddyn o ran rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd.
- 6.28. Nid yw Rhondda Cynon Taf wedi lleihau nifer y plant y mae'n gweithio gyda nhw ar sail plant mewn angen yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Dylai lleihau'r grŵp hwn o blant o ganlyniad i atal ac ymyrraeth gynnar fod yn flaenoriaeth i'r cyngor. Mae'r cyngor yn llai tebygol o neilltuo gweithiwr cymdeithasol cymwysedig i blant mewn angen na chynghorau eraill ac efallai yr hoffai ystyried perthnasedd posibl hyn i berfformiad. Trafodir arfer neilltuo ymhellach yn yr adran ar blant sy'n derbyn gofal isod. Yn gyffredinol, mae'r cyngor o'r farn bod modd ymdopi â llwythi achosion staff y gwasanaethau i blant. Mae'r cyfarwyddwr yn dal i gredu y gellir sicrhau mwy o waith uniongyrchol gyda theuluoedd a gwell perfformiad gyda'r adnoddau presennol. Mae'n credu bod lle i wella o ran symleiddio prosesau busnes i leddfu pwysau ar weithwyr neilltuedig.
- 6.29. Bu gostyngiad o 22 i nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn 2014-15, gostyngiad o 5%. Ond mae'r duedd hirdymor ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn uchel ac wedi cynyddu 63% mewn 7 mlynedd. Mae ganddo'r gyfradd uchaf o gofrestriadau amddiffyn plant yng Nghymru. Mae'r cyngor yn priodoli'r gostyngiad i gofrestriadau i fonitro cynyddol gan uwch reolwyr. Bydd y cyngor yn dymuno i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar gael yr effaith o leihau'r risg o gam-drin plant fel nad oes angen cofrestriad ac ymyrraeth sylweddol gyda theuluoedd. Caiff

plant eu neilltuo i weithiwr cymdeithasol cymwysedig ac maen nhw, a Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn gwneud yn dda o ran trefnu cynadleddau cychwynnol prydlon, grwpiau craidd ac adolygiadau amddiffyn plant.

- 6.30. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau'r awdurdod lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddiogelu plant. Ystyriodd yr adolygiad hwn yr ystod o swyddogaethau a gwasanaethau'r cyngor. Cynigir y dylai Rhondda Cynon Taf ddatblygu polisi diogelu corfforaethol a bod aelodau etholedig a gweithwyr cyngor perthnasol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar ymwybyddiaeth ddiogelu. Canfu arolwg bod gan lai o bobl na'r cyfartaledd yn Rhondda Cynon Taf lefelau uchel o hyder yng ngweithdrefnau diogelu'r cyngor neu eu bod yn credu bod y rhain wedi cael eu cyfathrebu iddynt (rhieni â phlant oedran ysgol er enghraifft). Rydym yn disgwyl bod y cyngor yn ystyried sut y gellir cryfhau a chyfathrebu ei bolisi diogelu corfforaethol yn effeithiol i'w boblogaeth.
- 6.31. Roeddem yn pryderu am gymorth yr awdurdod i ofalwyr ifanc yn 2013-14 ac fe'n hysbyswyd bod hyn oherwydd swydd a oedd yn wag dros dro. Mae'r cyngor wedi adennill ei berfformiad o ran asesu gofalwyr ifanc ac roedd y cymorth a ddarparwyd yn 2014-15 yn well na chyfartaledd Cymru. Cwblhawyd gwaith safle gennym yn ystod y flwyddyn a chlywsom am waith mewn ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc. Argymhellwyd gennym y dylai'r cyngor ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth am ofalwyr ifanc ar weithwyr ieuchyd proffesiynol. Parhaodd y cyngor i gomisiynu Gweithredu dros Blant i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc, er bod swyddogion gofalwyr y cyngor yn cynnal asesiadau ac yn gwneud rhywfaint o waith uniongyrchol hefyd. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu yn 2015-16 wrth i'r cyngor ystyried gwneud y gwasanaeth yn un mewnol unwaith eto. Rydym yn gwybod bod gofalwyr ifanc yn aml yn agored i niwed ac mae chwarter yn cymryd rhan mewn diogelu neu agweddau eraill ar y gwasanaethau i blant. Mae'n bwysig felly bod systemau'r cyngor yn sicrhau cymaint o ganlyniadau cadarnhaol â phosibl trwy sicrhau rhannu gwybodaeth effeithiol a gwasanaethau cydgysylltiedig.
- 6.32. Lleolwyd 49 o blant i gael eu mabwysiadu gan y cyngor yn ystod 2014-15. Roedd menter fabwysiadu gydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd wrthi'n cae ei datblygu yn ystod y flwyddyn ac mae'n un o'r pum gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol sy'n cyfansoddi'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Dylid adolygu cynnydd y gwasanaeth rhanbarthol yn ofalus er mwyn sicrhau bod perfformiad y fenter gydweithredol cystal â'r hyn a gyflawnwyd gan y cyngor ar ei ben ei hun ac yn rhagori ar hynny. Daeth gwasanaeth troseddau ieuenctid Cwm Taf yn gwbl weithredol ym mis Hydref 2014. Mae'r gwasanaeth ar y cyd hwn gyda Merthyr Tudful yn gweithio ar ddau safle. Rhondda

Cynon Taf sy'n cyflawni'r swyddogaeth rheoli llinell. Rydym yn deall na sicrhodd yr uno unrhyw arbedion i'r awdurdodau.

- 6.33. Derbyniwyd llai o gwynion am wasanaethau i blant yn 2014-15. Ymdriniwyd â phob cwyn ond un ar gam un. Roedd mwyafrif y cwynion yn ymwneud â gwasanaethau asesu a chynllunio gofal. Mae'r cyngor o'r farn bod y canllawiau newydd ar reoli cwynion a gyflwynwyd yn 2014 wedi bod o gymorth i gynhyrchu datrysiadau cynnar trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb â rheolwyr. Roedd y lefel uchel o ganmoliaeth a dderbyniwyd i'r tîm plant anabl a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar. Mae swyddogion adolygu annibynnol ac eiriolwyr hefyd yn codi materion ar ran pobl ifanc a chaiff y rhain eu monitro drwy'r bwrdd rhianta corfforaethol. Rydym wedi trefnu i arsylwi bwrdd rhianta corfforaethol yn 2015.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol


Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.34. Mae'r cyngor wedi creu swydd arweiniol ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar sy'n adrodd yn uniongyrchol i gyfarwyddwr gwasanaeth y gwasanaethau i blant. Bwriedir i'r swydd hon wella strwythur, mynediad ac effaith y gwasanaethau hyn ac i gydgyssylltu trefniadau cam i fyny a chamu i lawr rhwng ffrydiau gwasanaeth. Mae'r swydd yn cynnwys cyfrifoldeb am Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae'r awdurdod wedi sicrhau gostyngiadau i niferoedd y plant sy'n derbyn gofal (gweler isod) a chofrestriadau amddiffyn plant tuag at ddiwedd y flwyddyn. Bydd y cyngor yn dymuno bod yn eglur bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r nifer fwy sy'n manteisio ar y gwasanaeth ac effeithiolrwydd gwasanaethau ymyrraeth gynnar.
- 6.35. Mae'r cyngor yn gweithredu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys Tîm Cymorth i Deuluoedd Integredig ar y cyd â Merthyr Tudful. Bu ymdrechion i adolygu effeithiolrwydd a chylch gwaith y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a dangos canlyniadau ymyriadau'n well. Nodwyd y potensial i wella hefyd o ran y Tîm o Amgylch y Teulu; roedd hyn yn ymwneud â gwneud gwell defnydd o adnoddau amlasiantaeth a sicrhau mai teuluoedd sydd yn y mwyaf o risg yw'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae model diwygiedig wedi'i sefydlu ar gyfer 2015-16. Mae'r cyngor hefyd yn gweithredu tîm ymyrraeth ac ymateb cyflym i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal.
- 6.36. Rydym wedi ystyried datganiad digonolrwydd gofal plant 2014-17 y cyngor. Mae'r awdurdod o'r farn bod ganddo ddarpariaeth ddigonol o ofal plant ar y cyfan i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio. Fodd bynnag, nodir bod angen cynnydd i fathau penodol o

ddarpariaeth; gofal ar gyfer plant anabl, gofal plant y tu allan i'r oriau arferol a gofal dydd mewn ardaloedd lleol penodol lle mae'r rhain yn annigonol. Bydd y cyngor yn ystyried y ffordd orau o hybu datblygiad y gwasanaethau hyn.

- 6.37. Bydd darpariaeth feithrin am ddim ar gyfer plant tair oed yn gostwng i isafswm y wladwriaeth o 15 awr o fis Medi 2015, yn dilyn ymgynghori cyhoeddus a dadleuon sylweddol. Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg yn parhau i gynorthwyo teuluoedd â phlant iau mewn ardaloedd neilltuedig. Mae ein harolygiadau o feithrinfeydd Dechrau'n Deg yn ystod 2014-15 wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan a, phan nodwyd problemau, mae Dechrau'n Deg wedi darparu cymorth sylweddol i reolwyr i ddatrys materion a godwyd.

Plant sy'n derbyn gofal



Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Rhondda Cynon Taf	419	446	512	599	660	684	616

- 6.38. Mae'r cyngor wedi sicrhau gostyngiad o 10% i niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 ac wedi rhoi terfyn ar duedd sylweddol am i fyny. Dyma'r awdurdod lleol â'r 4^{edd} gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru o hyd. Mae prydlondeb o ran cynnal cyfarfodydd adolygu ac ymweld â phlant yn eu lleoliadau yn dda. Bydd y gostyngiad i niferoedd y plant sy'n derbyn gofal wedi lleddfu'r pwysau ar adnoddau lleoliadau i raddau cyfyngedig, ond mae'r awdurdod lleol yn dal i gael ei herio i gynnig dewis ystyrion i bob plentyn sy'n derbyn gofal o ran ble a chyda pwy y bydd yn byw.

- 6.39. Fe'n hysbysir bod y gwasanaethau i blant yn rheoli pwysau ychwanegol yr amlinelliaid cyfraith gyhoeddus ac mae'r pwyslais ychwanegol ar brydlondeb yn gymesur â'r ymgyrch fewnol i gyflymu prosesau ac atal 'drifft'. Er y bu mân-ostyngiad i berfformiad ers y llynedd, mae'r awdurdod yn parhau i wneud yn dda iawn o ran sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal gynllun llwybr cadarn a chynghorydd personol. Mae gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn wedi bod yn faes i'w ddatblygu trwy gydol y flwyddyn a byddem yn dymuno ymweld â'r gwasanaeth yn 2015-16.
- 6.40. Bu gostyngiad sylweddol i sefydliad prydlon cynlluniau addysg personol ar gyfer pobl ifanc mewn gofal, sy'n is na chyfartaledd Cymru erbyn hyn, ac mae achosion o symud ysgol wedi cynyddu, gan symud yr awdurdod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae ffigurau presenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda.
- 6.41. Er bod gan bron pob (95%) plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru weithiwr cymdeithasol cymwysedig, mae hynny'n wir i ddim ond 63% o blant yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r cyngor yn datgan ei hyder mewn gwneud mwy o ddefnydd o reolwyr gofal asesu ac nid oes gan y cyfarwyddwr unrhyw gynlluniau i gynyddu lefelau gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn y gwasanaethau i blant. Rydym yn derbyn y gallai fod gan reolwyr gofal asesu brofiad sylweddol o weithio gyda phlant. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y cyngor yn parhau i fonitro'r gweithlu hwn yng ngoleuni'r holl agweddau ar ei berfformiad. Er ei fod yn sicrhau y neilltuir gweithwyr cymdeithasol cymwysedig i blant ar y gofrestr amddiffyn plant, rydym yn cwestiynu pam nad yw hyn wedi cael ei ymestyn i blant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth tebyg, os nad mwy, ac sydd yr un mor agored i niwed.
- 6.42. Rydym wedi arolygu pedwar cartref gofal y cyngor ei hun eleni ac wedi canfod yn gyffredinol eu bod yn cynnig gwasanaeth da i blant. Mae'r cyngor wedi ceisio cynnal plant eraill yn lleol ac wedi comisiynu uned breswyl gan ddarparwr annibynnol. Mae gan y cyngor flaenoriaeth i leoli mwy o'i blant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr maeth ac i gynlluniau ar gyfer parhad lle'n briodol. Mae Rhondda Cynon Taf yn gweithredu gwasanaeth maethu cymharol fawr ac yn defnyddio darparwr allanol i recriwtio ac asesu gofalwyr maeth. Er na chyrhaeddwyd targedau blwyddyn un ar gyfer recriwtio, fe'n hysbysir bod y cyngor yn hyderus y bydd y targed a osodwyd ar gyfer diwedd dwy flynedd yn cael ei gyrraedd. Mae defnyddio'r darparwr annibynnol wedi caniatáu mwy o adnoddau ar gyfer ymateb i geisiadau am orchmynion gwarchodaeth arbennig ac mae'r cyngor wedi ymsefydlu ffrwd ar wahân ar gyfer gorchmynion gwarchodaeth arbennig yn ei wasanaeth maethu.

6.43 Nid yw gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol wedi'u cofrestru gydag AGGCC fel y mae asiantaethau maethu annibynnol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal arolygiadau blynyddol a chanfuwyd gennym nad oedd pobl gofalwr maeth wedi derbyn ei adolygiad blynyddol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd gofal ac yn cynnig cyfle i bobl ifanc fynegi eu barn eu hunain am eu gofalwyr. Hefyd, anaml yr ymwelwyd â gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthynas mewn rhai achosion. Hysbyswyd cyfarwyddwr y gwasanaeth bod hyn yn mynd yn groes i'r rheoliadau maethu. Fe'n hysbyswyd bod lefelau staffio'n llawn erbyn hyn ac mae'r awdurdod yn darparu tystiolaeth bod adolygiadau'n gyfredol.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu'r ganolfan ddiogelu amlasiantaeth.
- Prydlondeb asesiadau cychwynnol a chraidd.
- Asesiadau o ofalwyr ifanc.
- Datblygu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol.
- Datblygu gwasanaeth troseddau ieuenctid ar y cyd.
- Creu swydd i oruchwyllo atal ac ymyrraeth gynnar.
- Gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal.
- Gwelliannau i adolygiadau ac ymweliadau â gofalwyr maeth mewnol.

Meysydd i'w gwella

- Gwelliannau pellach i brydlondeb asesiadau cychwynnol.
- Effaith gynyddol atal ac ymyrraeth gynnar i leihau'r angen am lefelau uwch o ymyrraeth.
- Cynlluniau addysg personol prydlon a gostwng nifer yr achosion o symud ysgol i blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygu'r defnydd o weithwyr nad ydynt yn gymwysedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Dechreuodd y cyfarwyddwr newydd ei swydd ym mis Medi 2014, yn dilyn cyfnod lle bu cyfarwyddwr dros dro. Hefyd, dechreuodd arweinydd cyngor newydd, aelod cabinet dros wasanaethau i blant ac aelodau cyngor arwyddocaol eraill eu swyddi yn 2014-15. Rhagwelir newidiadau pellach i aelodau staff uwch yn 2015-16. Mae hyn, yn ogystal â gweithrediad Deddf GCLIC, yn cyfuno i gynnig cyfle go iawn i Ronda Cynon Taf foderneiddio mwy ar wasanaethau. Mae'r cyfarwyddwr yn croesawu'r cyfle hwn ond yn dal i fod yn ymwybodol o'r angen i gynnwys aelodau'r cyngor, staff a'r cyhoedd yn adeiladol yn y broses ac ystyried cyflymder y newid sydd fwyaf tebygol o gael ei dderbyn yn barod.
- 7.2. Ffurfiwyd bwrdd partneriaeth gwasanaethau cymdeithasol a lles Cwm Taf, mewn cydweithrediad â grŵp gweithredol, i sicrhau gweithrediad effeithiol gofynion Deddf GCLIC, wedi'i hysbysu gan ymarfer hunanasesu. Sefydlodd hwn 17 ffrwd gwaith y bydd cynrychiolwyr y cyngor yn cymryd rhan ynddynt neu'n eu harwain i sicrhau gweddnewid ym mhob maes penodol. Mae'r cyfarwyddwr yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol ar yr awdurdod ac mae'n eglur y bydd hyn yn dylanwadu ar gyflymder newid tuag at alinio gwasanaethau â'r Ddeddf. Bydd arbedion ariannol sylweddol yn cael eu gwneud yn 2015-16 a bydd cynllun diswyddiadau gwirfoddol sylweddol yn effeithio ar niferoedd a dosbarthiad staff profiadol.
- 7.3. Bydd uwch reolwyr yn cael eu had-drefnu eto yn 2015-16 gyda strwythur wedi'i symleiddio a ddylai gynnig golwg fwy eglur ar reoli perfformiad. Mae'r cyfarwyddwr yn eglur y bydd moderneiddio gwasanaethau a darpariaeth well yn cael eu sicrhau trwy ddefnyddio staff yn fwy doedd a monitro mwy ar ganlyniadau a gyflawnir.
- 7.4. Nodir gwelliannau i weithrediad y broses graffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac addaswyd y strwythur i gynnig pwyllgor craffu plant a phobl ifanc penodol, ochr yn ochr ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (oedolion). Rydym yn bwriadu cyfarfod â'r cadeiryddion craffu yn ystod 2015-16 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn am waith yr arolygiaeth.
- 7.5. Rydym yn ymwybodol y recriwtiwyd gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr uwch i'r gwasanaethau i blant ar ddechrau 2014-15. Byddem yn argymhell bod y grŵp gweithlu yn parhau i fonitro ac ystyried dosbarthiad staff cymwysedig, fel y trafodwyd uchod.

Meysydd o gynnydd

- Ystyriaeth gynyddol o foderneiddio gwasanaethau yn unol â deddfwriaeth newydd.
- Cynlluniau ar gyfer mwy o ddefnydd o systemau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gan uwch reolwyr.

Meysydd i'w gwella

- Adolygiad parhaus o gynllunio'r gweithlu.